NHS WALES
GIG CYMRU

**Gwybodaeth i’r Claf - Brechiad Tetanws gan gynnwys Difftheria a Pholio**

## Beth yw tetanws?

Haint difrifol ond prin yw tetanws a achosir gan facteria. Mae fel arfer yn digwydd pan fydd clwyf cnawd  yn cael ei halogi gan wahanol sylweddau gan gynnwys pridd, llwch ty a gwastraff anifeiliaid a dynol, megis tail. Mae'n amharu ar weithrediad arferol y nerfau, gan achosi symptomau fel anystwythder y cyhyrau a sbasmau. Os na chaiff ei drin, gall tetanws arwain at gymhlethdodau, sy'n gallu bod yn angheuol.

## Y brechiad tetanws

Mae cwrs llawn o frechiadau tetanws yn cynnwys pum ddos o'r brechlyn. Dylai hyn fod yn ddigon i roi diogelwch rhag tetanws yn y tymor hir i chi. Fodd bynnag, os nad ydych yn siŵr faint o ddosau yr ydych wedi'u derbyn, efallai y bydd angen brechiad atgyfnerthu ar ôl anaf sy'n torri eich croen.

Os ydych chi yn bendant wedi derbyn y pum ddos o'r brechlyn tetanws, rydych wedi eich brechu yn llawn ac nid oes angen brechiad atgyfnerthu.

Rydych wedi cael hwb tetanws heddiw sydd yn frechlyn cyfun o:

- tetanws, difftheria / brechlyn polio anweithredol (Td / IPV)

## Sgîl-effeithiau

Mae sgîl-effeithiau mân yn eithaf cyffredin, fel arfer dolur ar safle’r pigiad gyda rhywfaint o gochni. Ni ddylai hyn para ond am ddiwrnod neu ddau ac mae’n annhebygol o fod yn fwy na maint darn arian 50c. Efallai y byddwch hefyd yn teimlo'n sâl am ddiwrnod neu ddau, gydag ychydig o gur pen, ychydig poen o'r cyhyrau a thymheredd / twymyn ysgafn. Os ydych yn pryderu neu'n cael adwaith cryf iawn, dylech ofyn am gyngor

gan eich meddyg teulu. Mae hi'n ddiogel i gymryd parasetamol * os yw'r dolur eich poeni.

Rhowch wybod i'ch meddyg teulu eich bod wedi cael y brechiad fel y gallant wneud nodyn ohono yn eich cofnodion.

**Gwasanaethau Lleol**

Bydd gwefan Galw Iechyd Cymru yn eich caniatau i chwilio am wasanaethau lleol yn eich ardal chi, fel Fferyllfeydd a Chlinigau Iechyd Rhywiol http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/localservices/default.aspx?locale=cy

Dewis doeth
Choose well

Os byddwch chi'n sâl, neu yn cael eich anafu, dewiswch y gwasanaeth cywir gan y GIG er mwyn sicrhau'r driniaeth orau. Mae ymgyrch Dewis Doeth yn esbonio beth mae pob gwasanaeth yn ei wneud a phryd y dylid ei ddefnyddio.

Bydd dewis yn ddoeth yn golygu eich bod chi a'ch teulu yn derbyn y driniaeth orau. Mae hefyd yn feddwl bod gwasanaethau prysur y GIG ar gael i gynorthwyo'r bobl sydd â'r angen mwyaf.

Os nad ydych yn sicr pa ddewis yw'r un cywir, a wnewch chi ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47 os gwelwch yn dda neu ewch at wefan dewis doeth www.dewisdoethcymru.org.uk

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei gynhyrchu yn seiliedig ar daflenni gwybodaeth flaenorol a'r dystiolaeth sydd ar gael ar adeg cyhoeddi. Mae wedi cael ei adolygu'n glinigol, fodd bynnag, os ydych yn sylwi ar unrhyw beth y mae angen diweddaru neu ddiwygio, cysylltwch â ppi.team@wales.nhs.uk

Os bydd angen yr wybodaeth hon arnoch chi mewn iaith neu ar ffurf arall gofynnwch i aelod o'r staff os gwelwch yn dda

**Cyngor neu wybodaeth bellach**

Galw Iechyd Cymru – 0845 46 47

www.galwiechydcymru.wales.nhs.uk